# Gwybodaeth i Athrawon

## Ysbrydoli'r Ymdrech:
## Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf

(Arddangosfa o brintiau a drefnwyd gan Fiwrô Propaganda Rhyfel y Llywodraeth ym 1917)



AA. S. Hartrick, *Ar y Lein: Glanhawyr injans a cherbydau*. Portffolio Gwaith Menywod yn *The Great War, Britain's Efforts and Ideals*, 1917
(Amgueddfa Cymru)

www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/

## Cynnwys

- Beth yw’r printiau hyn?
- Beth oedd y Weinyddiaeth Wybodaeth?
- Beth yw propaganda a pam gafodd y printiau hyn eu cynhyrchu?
- Sut allwch chi ddefnyddio’r printiau?
- Pwy oedd yr artistiaid?
- Beth yw lithograff?
- Sut gafodd y printiau eu cadw?
- Mwy o wybodaeth

## Beth oedd y printiau hyn?




- 66 o brintiau a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Wybodaeth ym 1917 a'u harddangos ledled Prydain.
- Cynhyrchwyd sawl set o brintiau a'u cyflwyno i lond llaw o amgueddfeydd ac orielau celf.
- Cyflwynwyd y gyfres gyflawn hon o brintiau i Amgueddfa Cymru ym 1919.

## Beth oedd y Weinyddiaeth Wybodaeth?

- Ym 1914 sefydlodd y llywodraeth sefydliad o'r enw'r Biwrô Propaganda Rhyfel, Wellington House dan arweiniad Charles Masterman er mwyn goruchwylio propaganda Prydeinig, gartref a thramor.

- Cafodd y sefydliad ei ailwampio droeon cyn cael ei enwi yn y pen draw yn Y Weinyddiaeth Wybodaeth.

- Roedd y rhan fwyaf o'r propaganda a gynhyrchwyd yn gynnil a chyfrwys, ac ystyriwyd taw dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o apelio at y cyhoedd ym Mhrydain.



www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg/

## Beth yw propaganda a pam gafodd y printiau hyn eu cynhyrchu?

Gellir disgrifio **propaganda** fel gwybodaeth, yn enwedig gwybodaeth unochrog neu gamarweiniol, sy'n cael ei defnyddio i hyrwyddo achos neu safbwynt gwleidyddol.

Mae'n bwysig ystyried sefyllfa Prydain ym 1917 wrth ddadansoddi rhesymau'r llywodraeth dros gynhyrchu'r casgliad hwn o brintiau.

- Roedd miliynau o ddynion wedi'u hanfon i ymladd ar faes y gad.
- Roedd cannoedd ar filoedd o bobl yn gweithio mewn diwydiannau hanfodol i gynnal y peiriant rhyfel.
- Roedd y cyhoedd eisoes wedi dioddef blynyddoedd o galedi, trallod a cholled..

Roedd straen y rhyfel hir ac anodd yn dechrau dod i'r amlwg, wrth i bobl Prydain fynd yn fwyfwy anniddig. Roedd hyn yn destun pryder.

- Roedd prinder bwyd difrifol wrth i U-boats yr Almaen suddo'r llongau oedd yn cludo bwyd i Brydain.
- Roedd gweithwyr ffatri wedi cael digon at y prinder bwyd ac wedi dechrau streicio.
- Roedd pobl yn poeni am fygythiad y Zeppelins ac ymosodiadau o'r awyr.
- Roedd anfodlonrwydd yn lledaenu trwy fyddin Ffrainc ac ym mis Mai a Mehefin, bu miwtini gan 30,000 o ddynion ar y Ffrynt.

### Dysgu mwy am yr artistiaid

Cafodd y printiau lithograffig hyn eu creu gan rai o'r artistiaid enwocaf oedd yn gweithio adeg y Rhyfel Mawr. Maent yn gyfle i astudio deunydd a gafodd ei greu at ddiben penodol iawn, a gellir eu cymharu â phortffolios ehangach o waith artistiaid fel C. R. W. Nevinson a Syr Frank Brangwyn.

### Cymharu â gwaith celf arall y Rhyfel Byd Cyntaf

Mae gan Amgueddfa Cymru ddarnau pwysig o waith celf sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf fel:

- *Tanc mewn Brwydr* gan Syr Frank Brangwyn (www.amgeuddfacymru.ac.uk/celf/arlein/?action=show_item&item=140)
- *Gynnau Mawr i'r Ffrynt* gan Lucy Kemp-Welch (sydd i'w gweld ym Mhrif Neuadd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd).

Dyma gyfle i edrych ar sut mae rhyfel yn cael ei bortreadu yn y paentiadau hyn a'i gymharu â'r darlun o ryfel a geir ym mhrintiau Ysbrydoli'r Ymdrech.

**Dysgu am bropaganda**

Mae'r portffolio hwn o brintiau yn fan cychwyn da wrth edrych ar waith y Biwrô Propaganda Rhyfel (Y Weinyddiaeth Wybodaeth) yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae deunydd ysgrifenedig prin a baratowyd gan y Weinyddiaeth yn cael ei gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. (http://cymruww1.llgc.org.uk/2013/08/15/a-trench-raid/)

**Cymharu ag adnoddau cyfoes eraill**

Beth am fwrw golwg ar waith awduron a beirdd yr oes, megis Hedd Wyn, Robert Graves a Rupert Brooke. Sut oedden nhw'n portreadu'r Rhyfel Mawr drwy fathau eraill o gelfyddyd?

**Canolbwyntio ar un thema**

Er enghraifft, 'gwaith menywod', a threiddio'n ddyfnach i'r pwnc a chyfeirio'n benodol at brofiadau menywod yng Nghymru gan ddefnyddio deunydd o ffynonellau eraill.

Casgliad y Werin Cymru: www.casgliadywerincymru.co.uk

Erthygl Amgueddfa Cymru: www.amgueddfacymru.ac.uk/2392/

## Pwy oedd yr artistiaid fu'n gyfrifol am greu'r printiau?

Cyfrannodd rhai o artistiaid enwocaf yr oes at y portffolio, fel Augustus John, Syr Frank Brangwyn a C. R. W. Nevinson.

Gallwch ddarllen amdanynt yn *Ysbrydoli'r Ymdrech: Printiau'r Rhyfle Byd Cyntaf. Yr Artistiaid. Gwybodaeth i Athrawon.*



Hunanbortread
Augustus John
(1878-1961)
(Amgueddfa Cymru)

## Beth yw lithograffau?

- Lithograff yw pob un o’r printiau yn yr arddangosfa.
- Techneg brintio sy’n seiliedig ar yr egwyddor nad yw olew a dŵr yn cymysgu yw lithograffi.
- Bydd yr artist yn defnyddio deunydd seimllyd i dynnu llun ar arwyneb llyfn – calchfaen fel arfer.
- Mae’r wyneb yn cael ei wlychu â dŵr a bydd y dŵr yn setlo ym mhob man heblaw ar y darlun seimllyd.
- Gosodir papur ar ben y garreg a’i roi drwy wasg.
- Gyda lithograff lliw, bydd yr artist yn cychwyn gyda chynllun ar faen clo, ac yna rhaid defnyddio carreg wahanol ar gyfer pob lliw arall.
- Argraffwyd y lithograffau dan gyfarwyddyd yr artist F. Ernest Jackson yn Avenue Press. Roedd yn cadw mewn cysylltiad â’r artistiaid, yn helpu artistiaid fel Clausen a oedd yn anghyfarwydd â’r broses ac yn darparu proflenni.
- Roedd Jackson, ynghyd â Hartrick, ymysg grŵp bach o artistiaid a sefydlodd Glwb Senefelder yn 1909 er mwyn hybu ac adfywio lithograffi fel cyfrwng artistig. Enwyd y clwb ar ôl yr Almaenwr a ddyfeisiodd y broses yn y ddeunawfed ganrif.
- Cynhyrchwyd y portffolio hwn mewn cyfnod pan oedd tipyn o adfywiad yn y diddordeb ym mhotensial artistig lithograffi.

**‘The most brilliant of the younger men are all now making remarkable lithographs … there is a genuine renaissance of the art’ (Joseph Pennell, 1914)**

## Sut gafodd y printiau eu cadw?

Mae'r printiau yn y portffolio hwn yn dyddio o 1917 ac, ar ôl cael eu storio am gynifer o flynyddoedd, roedd hi'n bwysig gwneud gwaith cadwraeth arnynt er mwyn gallu eu harddangos a'u diogelu at y dyfodol. Mae'r gwaith yn gofyn am gryn ofal a sgil a gallwch olrhain hanes y broses yn ngeiriau'r cadwraethwyr mewn blog ar ein gwefan (http://www.amgueddfacymru.ac.uk/blog/?cat=2364)



Golwg agos ar smotiau brychu ar *Barod i forio* gan Muirhead Bone, 1917.



Golchi'r printiau i gael gwared ar y smotiau brychu.

## Rhagor o wybodaeth

Beth am fwrw golwg ar ein rhaglen o ddigwyddiadau dysgu a digwyddiadau i'r cyhoedd yn www.amgueddfacymru.ac.uk/rhyfel_byd_cyntaf/